**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Hydref 2023** |
| **Teitl:** | **Argymhelliad gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad drafft a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi adborth gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 11 Medi 2023** |

Bu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn ystyried y Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad drafft a Fframwaith Rheoli Perfformiad yn eu cyfarfod ar 11 Medi 2023.

Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn cryfhau ei ddull o reoli perfformiad corfforaethol fel rhan o'i "siwrnai" barhaus o ran perfformiad. Mae wedi:

- Cyflwyno proses newydd symlach o gynllunio busnes,
- Cyflwyno dangosfyrddau perfformiad newydd i fonitro'r cynnydd - ar sail cynlluniau busnes lefel 1 - drwy'r Bwrdd Perfformiad,
- Adfywio System Berfformio Teifi,
- Diweddaru'r broses o reoli perfformiad yn dilyn COVID-19 er mwyn cynnwys "ymarfer myfyriol" fel elfen graidd.

Adlewyrchir hyn yn yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru i ddull y Cyngor o reoli perfformiad.

Mae deddfwriaeth ddiweddar, ar ffurf y drefn berfformio newydd sy'n seiliedig ar Hunanasesu, hefyd wedi golygu bod angen ffordd newydd o asesu ein perfformiad cyffredinol. Llwyddwyd i gyflwyno proses Hunanasesu newydd yn 2022/23 a chyhoeddwyd Adroddiad Hunanasesu cyntaf y Cyngor ym mis Ionawr 2023.

Ar ôl cyflwyno'r prosesau newydd hyn mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa i dynnu'r rhain ynghyd i greu dogfen ddrafft Fframwaith Rheoli Perfformiad. Ystyrir bod Fframwaith Rheoli Perfformiad yn arfer da ac mae'n esbonio:

- Sut mae'r broses gorfforaethol o reoli perfformiad yn gweithio,
- Sut mae'r prosesau unigol yn cyd-fynd â'i gilydd i gefnogi cynllunio corfforaethol
- Sut mae rheoli perfformiad yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a chanlyniadau gwell.

Mae nod dwbl i'r Fframwaith.

1) darparu dull safonol i'r Cyngor o reoli perfformiad a,
2) fel rhan allweddol o'r trywydd archwilio i ddangos bod gan y Cyngor drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith.

Mae Datganiad y Polisi Rheoli Perfformiad yn cyd-fynd â'r Fframwaith Perfformiad. Mae'r Datganiad yn nodi prif egwyddorion y Cyngor o ran rheoli perfformiad ac yn ystyried y ddeddfwriaeth newydd ac arfer da. Mae'n tynnu sylw at rôl hanfodol rheoli

perfformiad wrth wella'r canlyniadau i bobl a chymunedau Ceredigion ac wrth ategu'r gwaith o lunio polisïau a dod i benderfyniad ar sail tystiolaeth.

Yn dilyn trafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad yn parhau.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod mesurau perfformiad monitro cyfyngedig yn eu lle, ac yn parhau i fod, gyda chymariaethau gan Awdurdodau Lleol cyfagos ac Awdurdodau Lleol o faint tebyg.
- Yn dilyn cwestiwn, cadarnhawyd bod y Mesurau Atebolrwydd Perfformiad cenedlaethol blaenorol bellach wedi darfod yn dilyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fodd bynnag, mae Data Cymru yn arwain prosiect i ddisodli'r mesurau gyda Theclyn Data Hunanasesu newydd a fydd yn rhoi data meincnodi cenedlaethol. Bydd gwaith pellach yn parhau i ddatblygu'r teclyn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac mae Ceredigion yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r prosiect.

**Argymhelliad:**
Cytunodd y Pwyllgor i argymell bod y Cyngor yn:

Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad drafft a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad.

**Rheswm dros y penderfyniad:**
Er mwyn mabwysiadu Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad diweddaredig a Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n amlinellu'r prif egwyddorion ar gyfer rheoli perfformiad yn y Cyngor.

**Y Cynghorydd Keith Evans**
***Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu***